

Hysbysiad Preifatrwydd

Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPRy DU), mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei chyflwyno mewn perthynas â'r Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuentid.

Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuentid: Enwebwyr

Mae'r Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuentid yn gyfle i gydnabod a dathlu prosiectau gwaith ieuentid eithriadol, gweithwyr ieuentid a rhai sy'n rhan o waith ieuentid ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ei rhwymedigaethau ynghylch gwybodaeth bersonol o ddifrif ac mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru (fel rheolwyr data) yn prosesu'r data personol yr ydych yn eu cyflwyno trwy gydol y broses Gwobrwyo. Bydd unrhyw ddata personol yn cael eu prosesu er budd y cyhoedd ac wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom ni.

Byddwn bob amser yn sicrhau bod unrhyw ddata personol a dderbyniwn mewn perthynas â'r Gwobrau'n cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu gweld yn unig gan y bobl hynny sy'n ymwneud â phrosesu'r enwebiad mewn perthynas â Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuentid megis swyddogion Llywodraeth Cymru a chontractwyr penodedig sy'n rhan o'r broses enwebu.

Bydd y data personol yn cael eu cadw am ddeuddeng mis yn dilyn dyfarnu'r Gwobrau a byddant yn cael eu dileu ar ôl hynny.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael mynediad at y data Personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch chi;
- i ofyn i ni gywiro anghywirdebau yn y data hynny;
- i wrthwynebu prosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- i'ch data gael eu dileu (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113

Gwefan: ico.org.uk

Am wybodaeth bellach am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal a'i defnydd, neu os hoffech ymarfer eich hawliau o dan y GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru

Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid: Enwebeion

Mae'r Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid yn gyfle i gydnabod a dathlu prosiectau gwaith ieuencid eithriadol, gweithwyr ieuencid a rhai sy'n rhan o waith ieuencid ledled Cymru.

Mae naw categori o wobrau i gyd. Gall pobl gael eu henwebu gan y cyhoedd, cydweithwyr a phobl ifanc eu hunain.

Fel rhan o'r broses enwebu, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn manylion fel eich enw, teitl eich swydd, enw eich sefydliad/cyflogwr, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ei rhwymedigaethau ynghylch gwybodaeth bersonol o ddifrif ac mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru (fel rheolwyr data) yn prosesu eich data personol trwy gydol y broses Gwobrwyo. Bydd unrhyw ddata personol yn cael eu prosesu er budd y cyhoedd ac wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom ni.

Byddwn bob amser yn sicrhau bod unrhyw ddata personol a dderbyniwn mewn perthynas â'r Gwobrau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael ei gweld yn unig gan y bobl hynny sy'n ymwneud â phrosesu'r enwebiad mewn perthynas â Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid, megis swyddogion Llywodraeth Cymru a chontractwyr penodedig sy'n ymwneud â'r broses enwebu.

Os ydych chi yn y rownd derfynol, fe all eich data personol gael eu prosesu yng nghyd-destun cysylltiadau cyhoeddus a chyfleoedd i'r wasg (cyn ac ar ôl digwyddiad). Bydd y rhain yn cynnwys ffotograffiaeth, cyfweliadau gyda'r cyfryngau, defnyddio eich astudiaeth achos / stori mewn unrhyw gysylltiadau cyhoeddus, fideo, y cyfryngau cymdeithasol, y teledu a'r wasg.

Bydd eich data personol yn cael eu cadw am ddeuddeng mis yn dilyn dyfarnu'r Gwobrau a byddant yn cael eu dileu ar ôl hynny.

Os hoffech dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg, rhowch wybod i ni trwy gysylltu â youthworkexcellence.awards@gov.wales. Yna byddwn yn dileu'r holl ddata personol yr ydym yn eu prosesu ar eich cyfer chi at ddibenion y Gwobrau/

Yn ogystal â hyn, o dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- cael mynediad at y data Personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch chi;
- ei gwneud yn ofynnol inni gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw;
- yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu;
- yr hawl i gael eich data wedi eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact
Wycliffe House

Water Lane
Wilmslow Cheshire
SK9 5AF

Telephone: 01625 545 745 or 0303 123 1113

Website: ico.org.uk

Am wybodaeth bellach am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal a'i defnydd, neu os hoffech ymarfer eich hawliau o dan y GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

- Swyddog Diogelu Data
- Llywodraeth Cymru
- Parc Cathays
- CAERDYDD
- CF10 3NQ
- E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru